

PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL

DYDD IAU, 7 RHAGFYR 2023

Yn
bressenol: Cynghorydd Owen Jones(Cadeirydd)

Cynghorwyr Derbyshire, Lancaster, Lloyd Jones, Jackie Parry,
Proctor a/ac Wood

28 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Gibson a Green

29 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau

30 : COFNODION

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2023 eu cymeradwyo'n gofnod cywir gan y Pwyllgor a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

31 : RNIB - SEFYDLIAD CENEDLAETHOL BRENHINOL POBL DDALL

Datganodd y Cynghorydd Wood fuddiant personol yn yr eitem hon fel Prif Ymchwilydd ar brosiect ymchwil a ariennir gan y Gymdeithas Facwlaidd a restrir fel sefydliad mewn dogfen Dylunio Strydoedd Cynhwysol.

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad briffio ynghylch pryderon gan yr RNIB mewn perthynas â newidiadau a wneir i'r tir cyhoeddus, sy'n cefnogi mwy o ddefnydd o drafnidiaeth gynaliadwy a dulliau teithio llesol a'r effaith ar y gymuned â nam ar ei golwg.

Rhodddwyd gwybod i'r Aelodau y gall pobl â nam ar eu golwg yn aml gael anhawster llywio ardaloedd trefol, yn enwedig os nad yw lleoliad seddi, arwyddion a biniau ac ati yn cael ei ystyried yn ofalus. Gall defnyddio palmentydd botymog priodol gynorthwyo gyda synnwyr cyfeiriad ac mae'n hanfodol i rybuddio am beryglon fel grisiau, yn ogystal â nodi croesfannau ffyrdd. Dylid gosod palmentydd botymog ac arwyddion bob amser i ddynodi llwybrau a rennir gyda beicwyr. Mae cambr y llwybr hefyd yn ddefnyddiol gan fod hyn yn helpu i ddynodi canol y llwybr.

Gall ymddygiad anystyriol gan rai beicwyr sy'n teithio ar hyd llwybrau cymunedol effeithio ar ddiogelwch personol pobl â nam ar eu golwg. Mae beicwyr yn anodd iawn eu clywed a gallant fynd yn gyflym iawn heb gael eu canfod. Yn aml mae'n amhosibl i berson â nam ar ei olwg wybod ble y dylai fynd i symud allan o'u ffordd, a gall teimladau o ddychryn a pherygl arwain at yr unigolyn hwnnw yn osgoi'r llwybr.

Gwahoddwyd cynrychiolwyr o'r RNIB i roi cyflwyniad a rhannu eu pryderon gyda'r Pwyllgor am newidiadau diweddar i ddylunio ffyrdd mewn lleoliadau ledled y ddinas. Croesawodd y Cadeirydd Rachel Jones, Swyddog Polisi ac Ymgyrchoedd, RNIB, Myrdd Jones, ei chynorthwy-ydd personol a chi cymorth Rachel, Flick i'r cyfarfod. Yn dilyn y cyflwyniad agorodd y Cadeirydd y drafodaeth ar yr eitem hon. Cafodd yr

Aelodau wahoddiad i holi cwestiynau, ceisio eglurhad neu wneud sylwadau am y wybodaeth a dderbyniwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi'u crynhoi isod:

- Diolchodd y Pwyllgor i'r RNIB am eu cyflwyniad a rhannodd yr Aelodau y pryderon a fynegwyd mewn perthynas â diogelwch nifer o safleoedd bysus dros dro mewn lleoliadau o amgylch canol y ddinas.
- Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau mai'r ystyriaeth allweddol wrth ddewis cynlluniau lliw a fyddai'n cynorthwyo pobl â nam ar eu golwg yw cyferbyniad h.y. lliw golau wedi'i baru â lliw tywyll. Mae gwyn a du neu, yn arbennig, melyn a du yn effeithiol gan fod melyn yn un o'r lliwiau olaf ar y sbectrwm y mae pobl â nam ar eu golwg yn ei golli.
- Gofynnodd yr Aelodau a ymgynghorir a'r RNIB yn rheolaidd ar gynlluniau dylunio strydoedd neu a ydynt yn cael gwybod am newidiadau ar ôl iddynt gael eu cychwyn. Dywedodd Rachel Jones fod yr RNIB yn aelod o Grŵp Mynediad a Chydraddoldeb Caerdydd. Ffurfiwyd y Grŵp yn ystod pandemig Covid-19 o ganlyniad i'r mesurau cadw pellter cymdeithasol a osodwyd yng nghanol y ddinas a oedd yn broblemus iawn i gŵn tywys. Codwyd gwrthwynebiadau gan yr RNIB a grwpiau eraill yn cynrychioli pobl â nam ar eu golwg yn y cyfarfodydd hynny ynghylch y mathau o ddyluniadau'n cael eu cynnig ond nid oedd yn glir a oes gan Grŵp Mynediad a Chydraddoldeb Caerdydd unrhyw ddylanwad ar benderfyniadau a phwy mae'r Grŵp yn adrodd iddynt. Roedd Rachel Jones o'r farn nad oedd 'llais' y rhai a gynrychiolir ar y Grŵp yn cael ei glywed ac mae hyn yn hynod rwystredig. Ar ben hynny, mae cynlluniau dylunio yn ddrud ac, felly, roedd yn well cael dyluniad da yn y lle cyntaf, oherwydd mae ôl-osod hygyrchedd i gynlluniau dylunio gwael yn ddefnydd gwastraffus o adnoddau.
- Gofynnodd yr Aelodau a oedd safon ddylunio y dylai'r Cyngor lynu ati. Dywedodd Rachel Jones fod llawer o ganllawiau ar gael i'r Cyngor. Er enghraifft, mae gan yr RNIB egwyddorion allweddol i ddylunio strydoedd cynhwysol. Yn ogystal, mae canllawiau Teithio Llesol ar gael a dylid cadw at hyn pan fo ceisiadau am gyllid yn cael eu gwneud. Mae canllawiau Teithio Llesol yn nodi'n glir na ddylid defnyddio ffiniau safleoedd bysus mewn ardaloedd sydd â niferoedd uchel o deithwyr, fel canol dinas Caerdydd.
- Dywedodd Aelod, ar ddiwrnodau casglu gwastraff yn y ddinas, fod cynwysyddion amrywiol yn cael eu cyflwyno i'w casglu ar y palmant, gan gynnwys y cad i gwastraff brown sy'n gyferbyniad isel iawn, sy'n aml yn cael ei adael ar y palmant ar ôl i'r gwastraff bwyd gael ei gasglu. Gofynnodd yr Aelod am farn yr RNIB ar hyn, p'un a yw wedi'i godi fel pryder ac am sylwadau ar y cynnig ar gyfer casgliadau gwastraff wedi'i wahanu pellach. Dywedodd Rachel Jones y gall llwybr cerdded i bobl â nam ar eu golwg ar 'ddiwrnod biniau' gymryd dwywaith cymaint o amser oherwydd yr angen i lywio o gwmpas rhwystrau ychwanegol. Argymhellir cynwysyddion adlewyrchol neu liw uchel. Mae cŵn tywys wedi'u hyfforddi i lywio o amgylch unrhyw rwystrau ar y droedffordd ond mae achosion pan fydd annibendod ar y palmant yn gwneud llywio'n anoddach. Mae'r RNIB yn ymchwilio i sut i newid ymddygiad pobl a bod yn fwy ystyriol o'r rhai â nam ar eu

golwg. Mae cynwysyddion ychwanegol yn debygol o achosi problemau pellach, yn enwedig ar gyfer cŵn tywys.

- Mynegodd yr Aelodau bryderon ynghylch y beicffordd ar wahân a rennir a'r problemau y mae hynny'n eu creu i ddefnyddwyr eraill y droedffordd. Gofynnwyd i'r RNIB a oeddent yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth neu adroddiadau am ddamweiniau y gellid eu defnyddio i lywio penderfyniadau yn y dyfodol. Dywedodd Rachel Jones y gallai ymddangos yn broblem fach i bartïon eraill pan fydd pobl yn cael profiad negyddol ond gall gael effaith niweidiol gan gynnwys achosi gorbryder. Bydd grwpiau ffocws yn aml yn rhannu straeon am eu profiadau. Mae rhai pobl â nam ar eu golwg wedi dweud nad ydynt yn barod i ddefnyddio gwasanaethau bysus mwyach oherwydd eu profiadau a'u diffyg hyder wrth lywio rhai safleoedd bysus yn y ddinas. O ran adroddiadau, mae llawer o bobl yn amharod i roi gwybod am broblemau oherwydd eu bod yn teimlo na fydd y Cyngor yn mynd i'r afael â nhw. Mae hefyd angen gwneud cyflwyno adroddiadau'n hygyrch.
- Roedd yr Aelodau yn siomedig gyda'r diffyg ymgysylltu gan y Cyngor ac yn cefnogi galwadau am ymgysylltu gwell â phobl â nam ar eu golwg a'r grwpiau sy'n eu cynrychioli.
- Gofynnodd Aelod a oedd Caerdydd yn ddinas dda i bobl â nam ar eu golwg gerdded o'i chwmpas yn gyffredinol. Dywedodd Rachel Jones fod yr enghreifftiau a roddir yn y cyflwyniad yn cynrychioli sampl fach o rai o'r problemau sy'n cael eu hadrodd yn rheolaidd i'r RNIB. Mae'r cyflwyniad wedi canolbwyntio ar enghreifftiau o ffiniau safleoedd bysus oherwydd y risg o ddamweiniau difrifol ond yn anffodus mae llawer o broblemau o amgylch y Ddinas. Roedd llawer o'r rhain yn ymwneud â sut mae'r Ddinas wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf a sut mae'r newidiadau hynny'n cael eu cyfleu i bobl nad ydynt yn gallu cael gafael ar wybodaeth weledol. Rhoddwyd nifer o enghreifftiau gan gynnwys palmentydd botymog nad ydynt yn arwain i unrhyw le, rhwystrau sy'n tresmasu ar balmentydd botymog a phroblemau'n ymwneud â systemau draenio cynaliadwy newydd.
- Wrth ymateb i gwestiwn, dywedodd Rachel Jones na fu unrhyw ymgysylltu â'r Cyngor ynglŷn â gosod ffiniau safleoedd bysus newydd ym Mharc y Rhath. Mae cais wedi ei wneud bod swyddogion yn cyflwyno'r cynlluniau i Grŵp Mynediad a Chydraddoldeb Caerdydd. Gall ymgynghori â phobl â nam ar eu golwg fod yn fwy heriol gan nad ydynt yn gallu gweld lluniadau technegol ac felly mae angen i'r cynlluniau gael eu hegluro'n well neu ddefnyddio mapiau a delweddau botymog.
- Gofynnodd yr Aelodau a wnaed unrhyw ymgynghori ar ddatblygiad diweddar Cwr y Gamlas yn Ffordd Churchill er mwyn sicrhau'r dyluniad mwyaf hygyrch posibl. Dywedodd Rachel Jones nad oes unrhyw gyswllt wedi cael ei wneud. O ystyried y prif brosiectau a fydd ar ddod yn y dyfodol agos, fel Metro De Cymru a'r Gyfnewidfa Fysus, mae'r RNIB yn awyddus i gael llais o ran hygyrchedd.

- Gofynnodd y Pwyllgor, pan godir problemau hygrychedd, a yw'r Cyngor yn eu datrys yn gyflym. Dywedodd Rachel Jones fod y Cyngor yn gallu bod yn araf wrth gywiro camgymeriadau. Nodwyd y problemau ffiniau safleoedd bysus am y tro cyntaf yn 2021 mewn cyfarfod gyda swyddogion y Cyngor. Gwnaed rhai addasiadau i'r cynlluniau hynny, ond nid oedd y rhain yn foddhaol, ac nid yw'r broblem wedi cael sylw llawn eto ac nid oes ymrwymiad clir wedi'i wneud.

PENDERFYNWYD: Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyflwyno unrhyw sylwadau, arsylwadau ac argymhellion a wnaed yn ystod y ffordd ymlaen.

32 : ADRODDIAD MONITRO ANSAWDD AER BLYNYDDOL

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn rhoi gwybodaeth gefndirol i'r Aelodau i gynorthwyo craffu ar yr adroddiad i'r Cabinet ynglŷn ag Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer Lleol Blynyddol Cyngor Caerdydd a oedd i fod i gael ei ystyried gan y Cabinet. Crynhowyd y materion a nodwyd yn yr adroddiad cryno yn yr adroddiad eglurhaol.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Caro Wild, yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Andrew Gregory, Cyfarwyddwr a Jason Bale, Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Arbenigol a Menter. Yn dilyn datganiad gan yr Aelod Cabinet a chyflwyniad, dechreuodd y Cadeirydd y drafodaeth ar yr eitem hon. Mae'r trafodaethau hynny wedi'u crynhoi isod:

- Gofynnodd Aelod a oedd unrhyw bryder, o ganlyniad i'r gostyngiad yn nifer y gwasanaethau bysus yn y ddinas, y byddai'r defnydd o geir yn cynyddu ac ni fyddai'n bosibl cydymffurfio â thargedau ansawdd aer. Dywedodd y Swyddogion ei bod yn anodd rhagweld amgylchiadau o'r fath, ond y nod oedd lleihau nifer y cerbydau ar y ffordd ac felly efallai y bydd angen ystyried opsiynau eraill mewn digwyddiad o'r fath.
- Gofynnodd Aelod a allai iteriadau'r adroddiad yn y dyfodol ddarparu lleoliadau safleoedd monitro ansawdd aer ochr yn ochr â'r data. Dywedodd y Swyddogion fod yr adroddiad llawn yn dilyn templed a osodwyd gan y llywodraeth genedlaethol, ond efallai y bydd modd cynnwys atodiad sy'n cyflwyno'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn y blynyddoedd i ddod.
- Gofynnwyd i'r Swyddogion nodi'r newidiadau a wnaed sydd wedi arwain at welliannau yn ansawdd yr aer yn y ddinas a darparu asesiad o effeithiolrwydd pob un o'r cydrannau hynny. Dywedodd y Swyddogion nad oedd modd nodi'r lefel honno o fanylion yn y data ond mae'r cynnydd mewn gweithio gartref a cherbydau allyriadau is yn ffactorau.
- Gofynnodd Aelod i'r Swyddogion wneud sylwadau ar nodau'r weinyddiaeth o ran ansawdd aer yn y ddinas. Dywedodd y Swyddogion mai'r nod oedd gostwng llygredd aer cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol. Fodd bynnag, bydd lefel o lygredd o ffynonellau eraill bob amser. Mae targedau ansawdd aer cenedlaethol

ar waith ar hyn o bryd a bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno ei thargedau cenedlaethol ei hun yn y dyfodol agos ar ôl cymeradwyo bil yn y Senedd yn ddiweddar. Roedd y Swyddogion yn aros am gadarnhad o ran beth fydd y targedau hynny. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod ansawdd aer yn hanfodol i iechyd y cyhoedd yng Nghaerdydd a'r rhanbarth ehangach. Nod y Cyngor yw gwella ansawdd aer cymaint â phosibl.

- Gofynnodd Aelod pa fesurau meddal oedd yn cael eu hystyried i argyhoeddi pobl i ddewis defnyddio teithio llesol neu drafnidiaeth gyhoeddus o'u gwirfodd fel dewis arall yn lle defnyddio ceir. Dywedodd y Cyfarwyddwr y bydd angen i bobl gael dewis arall hyfyw yn lle defnyddio ceir a bwriedir i'r camau gweithredu a nodir yn y Cynllun Trafnidiaeth 10 mlynedd fel datblygu rhwydwaith teithio llesol, cefnogaeth ar gyfer mesurau blaenoriaeth bysus, Metro De Cymru, datblygu Cledrau Croesi a'r gyfnewidfa fysis newydd gynbig dewis arall hyfyw.
- Gofynnodd Aelod a yw mater arogleuon o safleoedd tecawê yn cael sylw. Dywedodd y Swyddogion y bydd y materion hynny'n cael sylw drwy ddeddfwriaeth niwsans statudol gan y dylai offer echdynnu priodol fod ar waith mewn safleoedd o'r fath.
- Gofynnwyd i'r Swyddogion wneud sylwadau ar gyflwyno'r terfynau cyflymder 20 mya a gyflwynwyd a'u heffaith debygol o ran ansawdd aer. Dywedodd y Swyddogion fod y terfynau cyflymder cenedlaethol wedi'u cyflwyno ym mis Medi 2023 a bydd hi'n flwyddyn arall cyn y gellir casglu'r data a'i asesu'n llawn. Yng Nghaerdydd, mae parthau 20 mya wedi bod ar waith ers nifer o flynyddoedd felly bydd rhai o'r effeithiau hynny eisoes yn cael effaith. Roedd ymchwil Llywodraeth Cymru yn amhendant gan ei bod yn nodi bod rhywfaint o welliant mewn ansawdd aer mewn rhai amgylchiadau a chynnydd mewn amgylchiadau eraill.
- Gofynnodd Aelod i'r Swyddogion wneud sylwadau ar y meini prawf a ddefnyddir i asesu lleoliad gorsafoedd monitro ansawdd aer. Rhoddodd yr Aelod enghraifft leol anecdotaidd o leoliad y dylid ei fonitro efallai ond nad yw'n cael ei fonitro ar hyn o bryd. Dywedodd y Swyddogion y bydd ceisiadau o'r fath yn cael eu hateb. Bydd y lleoliadau'n cael eu hadolygu'n fuan a'u gweithredu ym mis Ionawr 2024 a bydd y lleoliad a nodwyd yn cael ei ystyried.
- Gofynnodd Aelod a yw mesurau gwella ansawdd aer, fel prosiectau wal fyw yn cael eu monitro. Dywedodd y Swyddogion fod ansawdd aer yn cael ei fonitro ar ochr y ffordd ac ar ochr arall y wal fyw i asesu'r gwelliannau y gall cynlluniau o'r fath eu cyflwyno. Mae hyn yn rhoi tystiolaeth o fanteision cynlluniau o'r fath. Yn yr un modd â Phrosiectau Strydoedd Ysgol.
- Nododd yr Aelodau fod yr adroddiad yn cynnig cyfartaledd blynyddol o ran ansawdd aer. Gofynnwyd i'r Swyddogion a oes adegau yn ystod y dydd, fel cyfnodau teithio prysur yn ystod 'oriau brig', pan fo targedau ansawdd aer yn cael eu rhagori. Dywedodd y Swyddogion fod hyn yn rheswm pwysig dros pam mae'r

weinyddiaeth yn ceisio ehangu'r rhwydwaith monitro amser real. Dim ond gwerth mis o ddata y bydd monitro tiwb tryledu'n ei gynnig ac nid yw'n bosibl nodi unrhyw frigiau a thueddiadau o'r fath. Mae monitro amser real yn gallu nodi amseroedd yn ystod y dydd pan fo crynodiadau uwch ac is o lygryddion a llywio penderfyniadau ynghylch mesurau i leihau crynodiadau uwch yn unol â hynny. Bydd data monitro amser real yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad blynyddol nesaf.

- Wrth ymateb i gwestiwn, dywedodd y Cyfarwyddwr y bydd y cynllun parhaol ar gyfer Stryd y Castell yn golygu rhai addasiadau i'r cynllun presennol mewn perthynas â'r croesfannau, y trefniadau safleoedd bysus a'r beicffyrdd ar wahân. Fodd bynnag, ni fydd yr egwyddorion sylfaenol yn newid. Addawyd y bydd y cynllun yn gwbl gefnogol i grwpiau hygyrchedd a defnyddwyr eraill.

PENDERFYNWYD: Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyflwyno unrhyw sylwadau, arsylwadau ac argymhellion a wnaed yn ystod y ffordd ymlaen.

33 : BUSNES Y PWYLLGOR

PENDERFYNWYD – Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

34 : EITEMAU BRYD (OS OES RHAI)

Dim eitemau bryd.

35 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Rhodddwyd gwybod i'r Aelodau y byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol yn cael ei gynnal ar 11 Ionawr 2024.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.45 pm